

Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dydd Mercher, 8 Mai 2019
Prifysgol Caerdydd

Yn bresennol:

- Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Yr Athro Siwan Davies, Dr Dylan Foster Evans, Dr Awen Iorwerth, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Delyth Murphy, Yr Athro Eleri Pryse, Dr Euryn Roberts
- Aelodau (Sefydliad): Dr Gwenno Ffrancon, Yr Athro Mererid Hopwood, Dr Cerys Jones, Dr Jonathan Morris, Dr Paula Roberts, Dr Rhiannon Williams
- Aelodau (Myfyrwyr): Llion Carbis, Cerys Griffiths, Anna Wyn Jones, Cathrin Jones
- Aelodau (Addysg Bellach): Carys Swain
- Swyddogion: Dr Haydn E Edwards (Cadeirydd y Coleg), Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd), Mari Fflur (Rheolwr Academaidd), Rhian Jones (Rheolwr Academaidd), Dr Lowri Morgans (Rheolwr Academaidd)
- Yn bresennol: Dr Huw Williams
- Ymddiheuriadau: Nia Brown, Yr Athro Lisa Lewis, Bryn Hughes Parry, Llŷr Roberts, Daniel Tiplady, Dr Catrin Haf Williams, Dr Prysor Williams, William Chidley, Rebecca Martin, Gethin Morgan

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a sylwadau agoriadol	1.1 Adroddwyd y newyddion trist am farwolaeth Julie Brake. Talwyd teyrnged iddi gan y Cadeirydd ac estynnwyd cydymdeimlad y Bwrdd Academaidd i'w theulu a'i chyfeillion, ac i Brifysgol Glyndŵr.		

	<p>1.2 Croeswyd pawb i'r cyfarfod, ac yn arbennig Dr Cerys Jones, Prifysgol Aberystwyth, Cadeirydd newydd y gangen a hefyd Dr Jonathan Morris, Prifysgol Caerdydd, Cadeirydd newydd y gangen i'w cyfarfod cyntaf.</p> <p>1.3 Estynnwyd croeso i Dr Rhiannon Williams, ar ran Yr Athro Lisa Lewis, Prifysgol De Cymru a'r Athro Mererid Hopwood ar ran Dr Catrin Williams, o Brifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant.</p> <p>1.4 Estynnwyd croeso arbennig a llongyfarchwyd Dr Huw Williams, Prifysgol Caerdydd, ar gael ei benodi fel Deon y Gymraeg.</p> <p>1.5 Diolchwyd am gyfraniad Dr Elin Royles fel Cadeirydd y Gangen ym Mhrifysgol Aberystwyth a hefyd ei chyfraniad i'r Bwrdd Academaidd.</p>		
2. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb	<p>2.1 Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod.</p> <p>2.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.</p>		
3. Cyflwyniad gan Dr Huw Williams, Prifysgol Caerdydd	3.1 Cafwyd cyflwyniad ar lafar gan Dr Huw Williams ar ei waith fel Deon ym Mhrifysgol Caerdydd.		
4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2019	4.1 Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.		
5. Diweddariad gan y Prif Weithredwr	5.1 Cafwyd diweddariad cyffredinol gan y Prif Weithredwr ar ddatblygiadau. Adroddwyd bod y Coleg yn ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu prifysgolion a bod y Coleg wedi bod		

<ul style="list-style-type: none"> • Ymweliad swyddogion y Coleg i Wlad y Basg, Mawrth 2019 	<p>yn cwrdd gyda rhai ohonynt am sefyllfaoedd penodol.</p> <p>5.2 Adroddwyd bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynnal, ond bod consyrn bod y prifysgolion yn colli pobl allweddol mewn rhai sefyllfaoedd penodol. Bydd y Coleg yn adrodd ar y sefyllfa i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr.</p> <p>5.3 Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i HEFCW yn y llythyr grant diweddaraf y dylai'r targedau sefydliadol gael eu cytuno gan y Coleg ac y bydd hyn yn ffocysu ar drosi canran o siaradwyr Cymraeg yn y prifysgolion i fod yn astudwyr yn hytrach na chael ffigwr fel targed.</p> <p>5.4 Adroddwyd bod cynhadledd Darlithwyr Cysylltiol i'w chynnal yn Aberystwyth ar 26 Mehefin. Nodwyd bod panel wedi cyfarfod i drafod gwobrau Darlithwyr Cysylltiol. Mae'r rhestr fer wedi ei gytuno gan banel allanol gan gynnwys cynrychiolaeth myfyriwr. Mae manylion y gynhadledd wedi ei ddosbarthu yn y newyddlen Darlithwyr Cysylltiol.</p> <p>5.5 Nodwyd bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi bod dros £100,000 i'r Coleg i hybu'r Gymraeg fel pwnc – mewn adrannau Cymraeg mewn prifysgolion, ac i ysgolion i gynnal darpariaeth Safon Uwch.</p> <p>5.6 Llongyfarchwyd Dr Lowri Morgans ar ei phenodiad fel Rheolwr Academaidd Addysg Bellach.</p> <p>5.7 Nodwyd bod Gwenllian Owen wedi ei phenodi yn Rheolwr Academaidd Addysg Uwch i gychwyn ym mis Gorffennaf.</p>		
--	--	--	--

	<p>5.8 Adroddwyd bod y datblygiadau am Addysg Bellach wedi symud ymlaen yn sylweddol. Nodwyd y bwriad i sefydlu Bwrdd / Pwyllgor i drafod y sector ôl-16. Atgoffwyd pawb o'r 'pyramid' a'r ffaith ein bod yn targedu pob dysgwr yn y sector ôl-16.</p> <p>5.9 Adroddwyd bod y gwaith o greu Cynllun Strategol i'r Coleg wedi cychwyn. Bydd y Bwrdd Academaidd a'r Canghennau yn cael cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad yn yr hydref gyda'r bwriad o'i gael yn ei le cyn diwedd y flwyddyn.</p> <p>5.10 Nodwyd bod trafodaethau yn parhau am rôl y Coleg ym maes hyfforddi athrawon. Nodwyd bod y Dystysgrif Cymhwysedd Athrawon yn dod i ben a bod disgwyl i'r prifysgolion ddarparu rhywbeth tebyg.</p> <p>5.11 Nodwyd rôl y Coleg wrth ymgysylltu gyda myfyrwyr y tu hwnt i Gymru.</p> <p>5.12 Adroddwyd bod y Prif Weithredwr wedi bod ar daith i Wlad y Basg yn ystod tymor yr hydref a oedd yn ffocysu ar y sector ôl-16 a phenderfynwyd y dylai swyddogion o'r Coleg fynd ar daith debyg i Wlad y Basg i ddysgu mwy am ddatblygiadau addysg uwch yno. Diolchwyd yn arbennig i'r Athro Elin Haf Gruffudd Jones am drefnu a chydlynu'r daith.</p> <p>5.13 Rhoddwyd cyflwyniad ar ymweliad swyddogion y Coleg i Wlad y Basg, 24-28 Mawrth 2019, gan Rhian Jones. Nodwyd bod sefyllfa Gwlad y Basg yn debyg i Gymru o ran daearyddiaeth a phoblogaeth. Esboniwyd bod y swyddogion wedi dysgu am hyfforddiant galwedigaethol, ymweld â</p>		
--	---	--	--

	<p>phrifysgolion gwahanol, mudiadau oedd yn hyrwyddo'r Fasgeg, sefydliadau ymchwil, papur newydd a hefyd adran addysg y Llywodraeth ar y daith. Nodwyd mai'r camau nesaf yw sefydlu partneriaeth ffurfiol gyda Phrifysgol Gwlad y Basg, cyfleoedd hyfforddiant, rhannu arfer da, gwaith ymchwil a mapio, ystyried ceisiadau Grantiau Arloesi yng ngoleuni'r daith a chreu cronfa ddata o gysylltiadau ar draws y byd (siaradwyr Cymraeg ac adrannau Astudiaethau Celtaidd). Nodwyd bod Gwlad y Basg yn dysgu'r gwyddorau yn y Fasgeg ac wedi gwneud hynny ers y cychwyn. Nid oes rhaniad wedi bod rhwng y pynciau Dyniaethau a Gwyddorau fel sydd yng Nghymru.</p> <p>5.14 Adroddwyd ar yr ysgoloriaethau ymchwil. Cynhaliwyd panel ym mis Ebrill. Cafwyd 19 cais i gyd ac argymhellwyd 14 o geisiadau gyda 2 gais wrth gefn. Mae'r prifysgolion wedi cael gwybod pa rai sydd wedi'u dyfarnu. Mae 7 ysgoloriaeth yn cynnwys ymgeisydd ac wedi'u derbyn, ac mae 7 arall yn ddi-ymgeisydd ac yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd.</p>		
<p>6. Papur trafod ar gryfhau cynrychiolaeth myfyrwyr y Bwrdd Academaidd</p>	<p>6.1 Cyflwynwyd papur trafod y myfyrwyr gan Anna Wyn Jones. Nodwyd nad oedd hi'n bosib symud ymlaen i greu swyddog sabothol o fewn strwythur y Coleg, fel a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf.</p> <p>6.2 Cynigwyd y byddai swyddogion iaith/llywyddion undebau myfyrwyr cyfrwng</p>		

	<p>Cymraeg yn cynrychioli myfyrwyr ar Fwrdd Academaidd y Coleg.</p> <p>6.3 Nodwyd bod y strwythur cynrychiolaeth myfyrwyr yn datblygu a bod y papur yn cynnig datrysiad. Nodwyd yr angen i sicrhau cynrychiolaeth o blith y myfyrwyr gan bob sefydliad ar y Bwrdd Academaidd.</p> <p>6.4 Cytunwyd i gymeradwyo'r papur a'r strwythur hwn fel ffordd ymlaen a'r angen i fonitro'r drefn newydd.</p> <p>6.5 Cytunwyd y byddai Deon y Coleg yn cyflwyno argymhelliad i ddiwygio cylch gorchwyl y Bwrdd Academaidd yn unol ag argymhelliad y papur yng nghyfarfod y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 25 Mehefin.</p> <p>6.6 Nodwyd y bydd angen ystyried cynrychiolaeth myfyrwyr yn llawn wrth ddatblygu strwythurau addas ar gyfer y sector ôl-16 hefyd.</p> <p>6.7 Diolchwyd i'r cynrychiolwyr myfyrwyr am eu gwaith a'r papurau a gyflwynwyd ganddynt i'r Bwrdd Academaidd eleni.</p>	<p>Deon y Coleg i gyflwyno'r papur a'r cylch gorchwyl i Fwrdd y Cyfarwyddwr</p> <p>DT/LM i ystyried hyn wrth ddatblygu'r gwaith ôl-16</p>	<p>Mehefin 2019</p> <p>Hydref 2019</p>
<p>7. Targedau cenedlaethol: diweddariad (llafar)</p>	<p>7.1 Adroddwyd bod y Cyngor Cyllido wedi gofyn i'r prifysgolion i gael trafodaeth gyda'r Coleg am y targed sefydliadol cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Cyllido. Cafwyd trafodaeth gan bob sefydliad am eu targedau.</p> <p>7.2 Nodwyd bod yna lif uchel o fyfyrwyr yn gadael i astudio y tu hwnt i Gymru a'r cwmp demograffig sy'n gosod her ychwanegol ar y prifysgolion wrth gyrraedd targedau 5cr a 40cr.</p> <p>7.3 Adroddwyd bod y Coleg wedi symud at fodel o drosi canran myfyrwyr sy'n siarad</p>		

	<p>Cymraeg sy'n astudio yn y brifysgol. Edrychwyd ar batrymau trosi'r tair blynedd ddiwethaf gan godi'r bar ychydig ar hyn, canlyniad hyn oedd y targed sefydliadol a gytunwyd fel cynllun ffioedd 2020/21. Cyfanswm y targedau yw 5,930 i astudio 5 credyd a 2,790 i astudio 40 credyd.</p> <p>7.4 Nodwyd bod targedau fesul pwnc wedi cael eu gosod trwy'r grantiau pynciol a bydd angen i'r adrannau hynny edrych ar sut i gynyddu cyfraddau trosi os yw'r rhain yn isel.</p>		
<p>8. Papur ar adeiladu cysylltiadau gyda myfyrwyr sydd yn astudio tu allan i Gymru</p>	<p>8.1 Wrth gyflwyno'r eitem, adroddodd y Prif Weithredwr bod y Llywodraeth yn cynnwys Prosiect Seren mewn darn o ymchwil ar ardrawiad polisiau addysg uwch yn dilyn cyflwyno argymhellion Diamond.</p> <p>8.2 Derbyniwyd adroddiad gan y Deon ar ei ymweliadau i brifysgolion tu hwnt i'r ffin a'r trafodaethau adeiladol gyda myfyrwyr yng Nghaergrawnt, Rhydychen, Llundain, prifysgolion a cholegau Cerdd, cynrychiolwyr Darogan a Chymdeithas Clawdd Offa.</p> <p>8.3 Nodwyd y prif ganfyddiadau o'r daith:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyn-lleied oedd y myfyrwyr yn gwybod am y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. • Brwdfrydedd y myfyrwyr i ymgymryd â gweithgareddau cyfrwng Cymraeg e.e. cynadleddau fel y penwythnos iechyd yng Nglan-llyn, y Dystysgrif Sgiliau Iaith ac eisiau sefydlu cymdeithas Gymraeg. • Byddai'r myfyrwyr yn croesawu unrhyw wybodaeth am swyddi cyfrwng Cymraeg. 		

	<p>8.4 Nodwyd pedwar argymhelliad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu rhwydwaith o fyfyrwyr ‘dros y ffin’. • Rhoi ystyriaeth i’r posibilrwydd o ymestyn y Dystysgrif Sgiliau Iaith iddynt. • Y Coleg i hwyluso cysylltiadau i fyfyrwyr dros y ffin am wybodaeth yrfaol ac ati. • Sicrhau bod cronfa ddata o staff academaidd cyfrwng Cymraeg. <p>8.5 Cytunwyd y dylid parhau â’r drafodaeth wrth ddatblygu Cynllun Strategol y Coleg.</p> <p>8.6 Cytunwyd y dylid sefydlu llinellau cyfathrebu gyda’r myfyrwyr y tu hwnt i’r ffin a’u hysbysu o unrhyw gyfleoedd cyfrwng Cymraeg a fyddai’n addas iddynt.</p> <p>8.7 Nodwyd y byddai’r Coleg yn medru ymestyn cynllun y Darlithwyr Cysylltiol i gynnwys darlithwyr y tu hwnt i Gymru fel rhan o ddatblygiad nesaf y cynllun gan gynnwys ymgynghori gyda’r Gymdeithas Ddysgedig i gryfhau hyn ymhellach.</p>	<p>Swyddogion i drefnu ac adrodd i’r BA</p> <p>Swyddogion i drefnu ac adrodd i’r BA</p>	<p>Tymor yr hydref</p> <p>Tymor yr hydref</p>
<p>9. Cynllunio pynciol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllun pwnc y Gymraeg • Amserlen adolygu cynlluniau pynciol 	<p>9.1 Nodwyd mai’r bwriad oedd cyflwyno cynllun pwnc y Gymraeg heddiw ond oherwydd sefydlu’r grŵp rhan-ddeiliaid y Gymraeg sydd wedi creu cynllun gweithredu a datblygiadau diweddar mai oedi i gyflwyno’r cynllun yn yr hydref fyddai orau.</p> <p>9.2 Fel rhan o’r cynllun gweithredu, sydd wedi ei drafod mewn cyfres o gyfarfodydd wedi eu cadeirio gan y Prif Weithredwr, adroddwyd bod y Llywodraeth wedi gofyn i’r Coleg ail greu’r rôl Swyddog Pwnc y Gymraeg sy’n cael ei hysbysebu ar hyn o bryd. Nodwyd bod Rhian Jones a Mared Jones wedi</p>		

	<p>cyflawni gwaith sylweddol ychwanegol eisoes er mwyn gweithredu rhai o'r cynlluniau a drafodwyd mewn perthynas â'r Gymraeg.</p> <p>9.3 Nodwyd bod y gwaith o adolygu'r cynlluniau pynciol yn mynd rhagddo ac yn dilyn yr amserlen a amlinellwyd yn y papur.</p>		
<p>10. Cyflwyniad ar adnoddau a gomisiynwyd gan y Coleg gan Mari Fflur, Rheolwr Academaidd</p>	<p>10.1 Cafwyd cyflwyniad ar adnoddau a gomisiynwyd gan y Coleg gan Mari Fflur.</p> <p>10.2 Nodwyd bod y prif brosiectau bellach yn cael eu cynllunio'n strategol gan ddechrau ar drafodaethau yn y paneli pwnc am eu hanghenion, a gweithio gyda nhw i gael manyleb yn barod i fynd allan am dendr cyhoeddus. Nodwyd y broses o dderbyn ceisiadau tendr a'u dyfarnu ac yna monitro'u cynnydd.</p> <p>10.3 Dangoswyd prosiectau'r Coleg sef Y Pecyn Adnoddau Amlgyfrwng Cymdeithaseg, <i>Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru a'r Esboniadur</i>.</p> <p>10.4 Nodwyd bod rhif 28 o <i>Gwerddon</i> sy'n cynnwys y 100fed erthygl am sefydlu'r cyfnodolyn wedi cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth eleni ac anogwyd pawb i gyfrannu at y cyfnodolyn.</p> <p>10.5 Adroddwyd ar y gwaith adnoddau sy'n mynd rhagddo yn y sector ôl-16 a bod y prosiect arbenigwyr pwnc wedi dod i ben mewn 8 maes blaenoriaeth yn nodi'r adnoddau sydd ar gael a'r bylchau yn eu plith i greu adnoddau newydd. Nodwyd bod tua 70 o adnoddau newydd i'w comisiynu o ganlyniad i'r prosiect hwn.</p>		

11. Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi	11.1 Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd oherwydd gohiriwyd y cyfarfod diwethaf.		
12. Derbyn, er gwybodaeth, diweddariad ar Strategaeth Farchnata'r Coleg	12.1 Nodwyd y Strategaeth Farchnata.		
13. Materion yn codi o'r cofnodion na ddeliwyd â hwy'n barod	13.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion na ddeliwyd â hwy'n barod.		
14. Unrhyw fater arall	<p>14.1 Gofynnwyd i'r Bwrdd Academaidd gefnogi Cangen Prifysgol Aberystwyth yn eu trafodaethau gydag UCAS er mwyn cynyddu'r niferoedd myfyrwyr sydd yn dewis cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>14.2 Nodwyd y stori a fu'n y newyddion yn ddiweddar am y diffyg adnoddau cyfrwng Cymraeg. Adroddwyd bod y Coleg yn aelod o Grŵp Adnoddau'r Llywodraeth sy'n mynd i'r afael â'r sefyllfa'n ymwneud â chyhoeddiadau Cymreig.</p> <p>14.3 Diolchwyd y Swyddogion Cangen a'r staff sydd wedi bod yn trefnu taith y Deon eleni.</p> <p>14.4 Diolchwyd y cynrychiolwyr myfyrwyr a staff y Coleg am eu gwaith gan y Deon.</p> <p>14.5 Gan mai dyma gyfarfod olaf y flwyddyn academaidd, dymunwyd yn dda i aelodau'r Bwrdd Academaidd gan y Deon.</p>	CJ i anfon llythyr Cangen Aberystwyth at y Coleg.	
15. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf	<p>15.1 Nodwyd y dyddiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 9 Hydref 2019, Aberystwyth • 5 Chwefror 2020, Abertawe • 13 Mai 2020, Bangor <p>15.2 Diolchwyd i Brifysgol Caerdydd am y croeso ac am letya'r cyfarfod.</p>		

